

Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod:	24 Gorffennaf 2024
Aelod Arweiniol/Swyddog	Cyng Gwyneth Ellis Aelod Arweiniol Perfformiad Cyllid ac Asedau, Liz Thomas, Pennaeth Cyllid ac Archwilio
Awdur yr adroddiad:	Liz Thomas, Pennaeth Cyllid ac Archwilio
Teitl:	Diweddariad i Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025/26 – 2027/28.

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025/26 – 2027/28.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhan o rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw ceisio sicrwydd bod gan y Cyngor brosesau effeithiol a chadarn ar waith ar gyfer pennu cyllidebau cytbwys. Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor

- strategaeth gyllidebol arfaethedig ar gyfer gosod y gyllideb ar gyfer 2025/26 fel y nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS)
- rhagamcanion ariannol ar gyfer y cyfnod 3 blynedd 2025/26 i 2027/28 yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig lefel uchel.

3. Beth yw'r argymhellion?

3.1. Mae'r Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi adborth i'r Cabinet ar y diweddariadau a restrir yn 2.1 uchod.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i dderbyn diweddariadau cyfnodol o'r MTFS a'r CATC 2025/26 – 2027/28 drwy gydol y flwyddyn. Ystyriwyd yr iteriad cyntaf gan y pwyllgor ym mis Ebrill gyda chrynodeb o adborth y pwyllgor i'r Cabinet wedi'i restru yn Atodiad 1.

Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 – 2027/28 – Atodiadau 2 a 3

- 4.2. Mae Atodiad 2 yn nodi'r rhagamcanion cyllideb gyfredol ar gyfer 2025/26 – 2027/28 ynghyd â'r tybiaethau sy'n sail i'r rhagamcanion. Ar y cam hwn ym mhroses y gyllideb mae'r CATC yn dangos amcangyfrifon bras o bwysau hysbys ynghyd ag effaith y cynnydd a amcangyfrifir yn Nhreth y Cyngor a chyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r tabl yn cynnwys ystod o ragdybiaethau i ddarparu amcangyfrifon isel, canolig ac uchel o gostau ar gyfer pob pwysau, gan ddangos ansicrwydd y ffigurau a faint o waith sydd angen ei wneud o hyd i fireinio'r rhagamcanion hyn.
- 4.3. Atodiad 3 yw'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig sy'n nodi dull strategol y Cyngor o reoli ei gyllid ac yn amlinellu'r materion ariannol a fydd yn wynebu'r Cyngor dros y tair blynedd nesaf.
- 4.4. Dyma'r ail fersiwn o'r dogfennau hyn ac mae wedi'i chrynhof gyda data a gwybodaeth ar gael ar ddechrau mis Gorffennaf 2024. Bydd y dogfennau hyn yn cael eu mireinio ymhellach, gan gynnwys diweddariadau ar wahanol ffrydiau gwaith, wrth i flwyddyn ariannol 2024/25 fynd rhagddi.
- 4.5. Mae'r cyngor wedi wynebu her ariannol sylweddol wrth osod ei gyllideb ar gyfer 2024/25, y disgwylir iddi barhau yn y tymor canolig oherwydd cyfuniad o ddim cynnydd mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru (tybiaeth weithredol), effaith barhaus chwyddiant a chynnydd mewn cyllid galw am wasanaethau a chymhlethdod yr anghenion. Ni ddylid diystyru maint yr her ariannol sy'n wynebu'r cyngor. Y pwyntiau allweddol yw:
- Mae'n anodd rhagweld y pwysau ond ar hyn o bryd maent yn amrywio o £12m i £24m yn 2025/26 gydag ystod ganolig o £18m. Rhagwelir ystodau tebyg ar gyfer 2026/27 a 2027/28.

- Ni roddodd setliad cyllid 2024/25 gan Lywodraeth Cymru unrhyw arwydd o gyllid yn y dyfodol fel y mae wedi'i wneud dros y 2 flynedd ddiwethaf. Mae cyllid yn y dyfodol o fewn y CATC yn seiliedig ar asesiadau gan Ddadansoddiad Cyllid Cymru ar ostyngiadau ychydig yn negyddol yn absenoldeb unrhyw beth arall.
- Mae'r tybiaethau a wnaed ynghylch codiadau Treth y Cyngor yn amrywio o 6% - 12% ar gyfer 2025/26 gyda chyfartaledd hirdymor o 5.5% wedi hynny ar gyfer y ddwy flynedd. Mae'n bwysig nodi nad oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto. Mae rhagdybiaeth canol-ystod o gynnydd yn Nhref y Cyngor o 9% ar gyfer 2025/26 yn rhoi £6.8m ychwanegol ond dim ond yn mynd i'r afael â thraean o'r bwlch ariannu, mae'r bwlch sy'n weddill yn sylweddol ar £12m. Bydd trafodaethau Aelodau ynghylch lefel Treth y Cyngor yn cael eu cynnal yn yr hydref.
- Dylai'r cyngor fod yn bwriadu cymryd camau i leihau'r gwariant net amcanol o tua £18m yn 2025/26 i osod cyllideb gytbwys. Mae hynny'n gostwng i tua £12m pe bai cynnydd o tua 9% yn Nhref y Cyngor yn cael ei gefnogi.

4.6. Mae newidiadau a wnaed i'r MTFS wedi'u hamlygu mewn melyn yn atodiad 3 er hwylustod i aelodau'r pwyllgor ac fe'u crynhoir isod;

- Mae'r rhagdybiaethau ynghylch amseriad gweithredu strwythur graddfeydd cyflog newydd wedi'u gwthio'n ôl yn unol â'r ymrwymadau a wnaed yng nghynnig terfynol y cyflogwr o ran dyfarniad cyflog 2024/25. Roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn y CATC
- Risgiau – diweddariadau ar ddyfarniadau cyflog, a diwygiadau Treth y Cyngor
- Adran Gostyngiadau Cyllideb, Arbedion ac Effeithlonrwydd – mae'r naratif wedi cael ei fireinio ymhellach.
- Adran drawsnewid – wedi'i diweddarau yn unol â datblygiad y rhaglen drawsnewid.
- Cyflwyno'r adran gyfalaf.
- Adolygu a diweddarau'r adran Cronfeydd wrth gefn a balans

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae rheolaeth effeithiol o gyllidebau'r cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sail i weithgarwch ym mhob maes. Mae'r cynigion yn cynnwys dyraniadau i barhau i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Fel y nodir yn yr adroddiadau cyllideb hyd yma ar gyfer 2024/25. Bydd goblygiadau ariannol a goblygiadau eraill ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol yn dod yn gliriach wrth i ni symud strategaeth y gyllideb yn ei blaen.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Les (WIA) ar gyfer pob cynnig arbedion mawr wrth osod cyllideb 2024/25. Cafodd yr holl asesiadau eu coladu a'u hadolygu gan swyddogion cynllunio strategol a pherfformiad i amlygu unrhyw themâu a phatrymau sy'n dod i'r amlwg er mwyn darparu diweddariadau rheolaidd ar yr effaith gyfanredol mewn perthynas â phob un o'r nodau llesiant ac a oedd yr arbedion yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchoddedig penodol. Casglwyd y rhain i ffurfio WIA cyffredinol o'r mesurau cyfunol i leihau'r gyllideb.

7.2. Bydd proses debyg yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer pennu cyllideb 2025/26.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae Cynllun Cyfathrebu wedi'i ddatblygu ar gyfer y gyllideb i sicrhau yr ymgynghorir â'r grwpiau canlynol ar yr adegau priodol: Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, UDA, Cabinet, Arweinwyr Grwpiau, holl Aelodau'r Cyngor, Fforwm Cyllideb Ysgolion, Undebau Llafur, ein gweithwyr, busnesau lleol, a'n trigolion.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r Cyngor, ynghyd â holl gynghorau eraill Cymru, yn wynebu heriau ariannol digynsail. Nod y Strategaeth yw sicrhau bod y cyngor yn darparu cyllidebau cytbwys yn y dyfodol. Bydd gosod y rhagamcanion a'r strategaeth yn yr

adroddiad hwn yn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn cael ei hysbysu ac yn barod i osod cyllideb ar yr adeg heriol hon.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1. Mae proses y gyllideb ei hun yn fesur rheoli risg gyda'r nod o nodi, asesu a chytuno ar gynigion cyllidebol mewn ffordd gynlluniedig ac amserol. Bydd methu â chytuno ar y cynigion hyn heb ddewisiadau amgen hyfyw yn golygu na fydd modd cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26.
- 10.2. Mae adran fanwl ar risg wedi'i chynnwys yn yr MTFS yn atodiad 3.
- 10.3. Fel yr amlygwyd yn flaenorol i'r pwyllgor, mae risgiau o ran capasiti'r tîm Cyllid y mae angen i'r Aelodau fod yn ymwybodol ohonynt. Mae'r tîm wedi bod yn gweithio gydag Archwilio Cymru ar yr archwiliad o gyfrifon 2022/23, a chau 2023/24. Fel arfer mae capasiti cyfyngedig iawn ar gyfer unrhyw beth arall heblaw cau'r cyfrifon yn ystod Ebrill a Mai. Eleni fodd bynnag roedd cymhlethdod ychwanegol system ariannol newydd yn cael ei chyflwyno o 1 Ebrill. Yn yr un modd â chyflwyno unrhyw system newydd sy'n effeithio ar gannoedd o ddefnyddwyr ar draws ein holl systemau ariannol, bydd rhywfaint o aflonyddwch cyn i bethau setlo.
- 10.4. Mae diweddariadau cyllid misol o'r flwyddyn ariannol newydd fel arfer yn weithredol erbyn mis Mehefin. Er bod cynnydd wedi'i wneud o ran datblygu monitro cyllideb awtomataidd o'r system newydd ni fydd yn ei le tan fis Medi. Mae hyn yn risg i'r Cyngor oherwydd na all adrodd yn llawn ar y gwariant a ragwelir yn erbyn y gyllideb yn ystod ychydig fisoedd cyntaf y flwyddyn ariannol. I liniaru'r risg, mae'r tîm cyllid yn adolygu cyllidebau â llaw, gan ganolbwyntio ar feysydd risg uchel, i ddiweddarau'r Cabinet ar feysydd risg sylweddol o orwariant ac wedi gweithio gyda'r holl Benaethiaid Gwasanaeth i ddiweddarau'r traciwr arbedion.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

- 11.1. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.